**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 9 Mawrth 2022 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Jill Burgess (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|
| M B Lewis | O G James |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Philip Crayford | Mike Lewis |
| Michaela Jones | Margaret Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L G Thomas

---

## 18 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 19 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2021 a 21 Ionawr 2022 fel cofnodion cywir.

## 20 Cyfarfod Blynyddol gydag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol. (Llafar)

Mae'r Pwyllgor Safonau'n gwahodd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol i gyfarfod y Pwyllgor Safonau yn flynyddol i drafod deddfwriaeth berthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y themâu ar gyfer trafodaeth, a ddosbarthwyd i aelodau ymlaen llaw, oedd:

**Cwestiwn 1** – Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn amodi bod yn rhaid i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed pa gamau rydych yn eu cymryd yn awr o ran cynnal safonau o fewn eich

grŵp eich hun a sut rydych yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd newydd wrth symud ymlaen?

**Cwestiwn 2** – Mae gan y Pwyllgor Safonau swyddogaethau newydd o dan y Ddeddf hefyd i sicrhau bod arweinwyr grwpiau'n gallu cael cyngor a hyfforddiant i gefnogi'u dyletswyddau newydd ac i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau â'r dyletswyddau hynny. A oes unrhyw gefnogaeth y teimlwch y byddai'n fuddiol naill ai gan y Pwyllgor Safonau/Prif Weithredwr/Swyddog Monitro wrth gyflawni'ch dyletswydd ac a allwn ni eich cynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter May, Arweinydd Grŵp Uplands i'r Pwyllgor a ymatebodd fel a ganlyn:

Dywedodd mai'r prif ffocws oedd ymrwymo i'r 6 gwerth y maent yn eu cynnal mewn perthynas â Bod yn Agored, Tryloywder, Gonestrwydd, Uniondeb, Goddefgarwch a Pharch, Cydraddoldeb a Thegwch, Gwerthfawrogi Gwahaniaethau Diwylliannol a Chynaladwyedd.

Esboniodd mai grŵp bach o ddim ond 2 aelod oedd Grŵp Uplands, felly byddai unrhyw faterion perthnasol a'r ffordd ymlaen yn cael eu trafod drwy gyfarfod un i un. Byddai'r Swyddog Monitro yn darparu unrhyw gyngor ar ddehongli'r safonau.

Dywedodd y Cynghorydd May fod Grŵp Uplands yn gobeithio ehangu nifer ei aelodau i 4 yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol a drefnwyd ar gyfer 5 Mai 2022 a byddai'n sicrhau bod y darpar ymgeiswyr yn cael eu harfarnu o'r safonau cyn yr Etholiad.

O ran cymorth, gofynnodd y Cynghorydd May a allai ofyn am gyngor perthnasol gan y Pwyllgor a swyddogion yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol, pe bai unrhyw faterion yn codi ac unwaith y byddai Arweinwyr Grŵp wedi gallu "profi" eu cyfrifoldebau a amlinellir yn y Ddeddf.

## 21 Safonau Ymddygiad - Arweiniad Statudol Drafft.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganllawiau statudol drafft Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â dyletswyddau newydd y Pwyllgor Safonau ac Arweinwyr Grwpiau.

Amgaewyd y canllawiau statudol drafft yn Atodiad A a oedd hefyd yn amlinellu'r cwestiynau allweddol i'r Pwyllgor:

**Cwestiwn 1** - A yw'r canllawiau drafft yn esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau, fel y nodir yn narpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mewn ffordd y gellir ei ddeall gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau?

**Cwestiwn 2** - A yw'r canllawiau drafft yn esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir gan Bwyllgorau Safonau mewn prif gynghorau, fel y nodir yn narpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mewn ffordd y gall Pwyllgorau Safonau ei deall?

**Penderfynwyd** y byddai ymateb y Pwyllgor Safonau i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Swyddog Monitro, yn cadarnhau eu bod yn deall y 2 gwestiwn allweddol a amlinellir uchod.

## 22 Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl yn dilyn dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Amlinellwyd y newidiadau arfaethedig yn Atodiad A, ac amlinellwyd y Cylch Gorchwyl presennol yn Atodiad B.

Amlinellodd y cyfrifoldebau ychwanegol ym Mharagraffau 2.2-2.4 o'r adroddiad.

Awgrymodd y Cynghorydd Phil Crayford y dylid ychwanegu cyfnod swydd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned / Tref yn adran 7.2.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor Safonau yn argymell y newidiadau i'r Cylch Gorchwyl, yn amodol ar y diwygiad uchod, a fyddai'n cael ei adrodd i Weithgor y Cyfansoddiad ac yna'r cyngor i'w gymeradwyo.

## 23 LLyfr Achosion Cod Ynddygiad.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" yn amlinellu Llyfr Achosion Côd Ymddygiad diweddaraf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn benodol, tynnodd sylw at fanylion yr achos mewn perthynas â Chyngor Tref Trefyclo a'r achos a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yr oedd disgwyl am y canlyniad o hyd.

## 24 Torri Côd Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau bod Cynghorwyr Awdurdodau Lleol a Chynghorwyr Cymuned a Thref wedi torri'r Côd Ymddygiad.

## 25 Cynllun Gwaith 2022- 2023. (Llafar)

Awgrymodd y Swyddog Monitro y dylid ystyried y pynciau canlynol ar gyfer Cynllun Gwaith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022-2023:

- Sut mae'r Pwyllgor yn ymdrin â'i ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Etholiadau (Cymru) 2021 o ran monitro arweinwyr grwpiau a'u gofyniad i gwblhau Adroddiad Blynyddol;
- Adolygiad o Brotocol Cysylltiadau Swyddogion / Aelodau;

- Adolygiad o Brotocol Datrys Anghydfodau Lleol Aelod yn erbyn Aelod;
- Adroddiad diweddaru ynghylch hyfforddiant Cynghorau Cymuned / Tref, yn enwedig hyfforddiant ariannol;
- Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr;
- Diweddaru'r ffurflen goddefeb;
- Polisi Datgelu Camarfer (Pennaeth Adnoddau Dynol i ddarparu gwybodaeth gefndir i'r Pwyllgor);
- Cynllun Indemniad.

**26 Diolch.**

Ar ran y Pwyllgor Safonau, diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Phil Crayford a mynegodd ei ddymuniadau gorau iddo ar ei gyfarfod diwethaf fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned / Tref ar y Pwyllgor Safonau. Byddai cyfnod swydd y Cynghorydd Crayford yn dod i ben yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022.

Ymatebodd y Cynghorydd Crayford drwy ddiolch i'r Pwyllgor am ei holl gymorth dros y blynyddoedd. Roedd wedi mwynhau cynorthwyo'r Pwyllgor yn fawr yn yr holl waith yr oedd wedi'i wneud ers ymuno â'r Pwyllgor ym mis Hydref 2012 a chynigiodd ei gymorth i'r person a fydd yn cymryd ei le, ar ôl iddo gael ei benodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.11 pm

**Cadeirydd**